



CYNLLUN HYGIRCHEDD YSGOL : 2018-2019

MAES I'W DDATBLYGU	TARGEDAU	STRATEGAETHAU	CANLYNIAD, AC ERBYN PRYD	NODAU A GYFLAWNWYD
Cyflwyno'r Cwricwlwm.	Trefnu'r ystafelloedd dosbarth i ateb gofynion myfyrwyr anabl.	Mae cyngor oddiwrth arbenigwyr (y gwasanaeth Nam ar y Clyw, y Gwasanaeth Awtistiaeth) yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth drefnu'r ystafelloedd dosbarth, fel bod myfyrwyr anabl yn cael y budd mwyaf.	Mae monitro yn dangos bod Anabledd / AAA yn cael eu hystyried wrth drefnu'r amgylchedd ddysgu.	Mae myfyrwyr anabl yn gallu cael mynediad mwy effeithiol at yr amgylchedd ddysgu.
Cyflwyno'r Cwricwlwm / Cyflwyno deunyddiau mewn fformatau amgen.	Defnydd o dargedau proffil disgybl gan staff yr ystafell ddosbarth. Mae'r angen am amser ychwanegol wrth gwblhau gwaith ymarferol wedi'i ddeall, ac wedi'i gynnwys yn y cynllunio. Diagramau'n cael eu disgrifio a PhwyntiauPwer yn cael eu darllen yn uchel. Copïau o sleidiau a diagramau ar gael i fyfyrwyr.	Gwybodaeth AAA ar gael i'r holl staff; mae angen hyfforddiant pellach ar weithredu a gwahaniaethu'r cwricwlwm. Defnydd o'r staff sy'n ymwneud â'r 'Prosiect Cynhwysiant' a staff yr Awdurdod Addysg Lleol.	Mae monitro yn dangos bod gwahaniaethu sy'n targedu myfyrwyr anabl / AAA / eraill a enwebwyd yn ei le.	Myfyrwyr anabl yn gallu cael mynediad at y cwricwlwm mewn ffordd fwy effeithiol.
Yr ysgol wedi'i chynllunio ar gyfer anghenion myfyrwyr anabl.	Pob ardal yn hygyrch i fyfyrwyr anabl.	Trafodaethau strategol gyda'r Awdurdod Lleol parthed â 'chynllun rhesymoli' campws yr ysgol yn cynnwys mynedfeydd i'r anabl - fel un o flaenoriathau'r ysgol – fel rhan annatod o'r gwaith ail-adeiladu a gwneud gwelliannau.	Mae'r cynlluniau a luniwyd yn dangos yn glir sut y bydd mynediad i'r anabl yn cael ei weithredu. Bydd pob adeilad mewydd yn gydnaws â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.	Lleihau ar natur wasgaredig safle'r ysgol. Myfyrwyr anabl yn gallu cael mynediad di-drafferth i bob ardal gorfforol.
	Arwyddion yn glir ac yn ddealladwy i'r rhai sydd â nam ar y golwg.	Ailosod arwyddion yn cymryd i ystyriaeth cynlluniau lliw / maint yr arwyddion.addas.	Arwyddion newydd i fod yn glir, ac i'w hadnewyddu fel bo'r angen.	